



COED Gwarchodfa Natur Leol PWLLYCROCHAN WOODS Local Nature Reserve



Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch

Ni ddylech gael unrhyw broblemau wrth ddod â grŵp i goed Pwllycrochan, ond mae rhai pethau i'w hystyried i wneud yn siŵr fod eich ymweliad yn mynd yn hwylus. Mae faint o amser y bydd y llwybr yn ei gymryd yn dibynnu ar gyflymdra'r grŵp, faint o amser rydych chi wedi'i ganiatáu a faint o weithgareddau rydych chi am gymryd rhan ynddynt ar y llwybr: fodd bynnag, byddem yn eich cynghori i ganiatáu o leiaf awr.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn ymweld â'r coed ymlaen llaw er mwyn ichi fod yn gyfarwydd â'r safle a'r Daith Darganfyddiad sy'n cael ei hyrwyddo. Hefyd, dylech ddarllen y pecyn gwybodaeth er mwyn dewis gweithgareddau addas i'ch grŵp.

Dylech ddod â digon o athrawon/oedolion i reoli'r grŵp fel bod y plant yn gallu cwblhau'r gweithgareddau mewn ffordd ddiogel. Bydd hyn yn dibynnu ar faint y grŵp, oedran y plant ac unrhyw anghenion eraill sydd gan y grŵp.



Tywydd

Rydym yn cynghori athrawon yn gryf i fod yn ymwybodol o'r tywydd cyn ymweld â'r coed. Bydd hyn yn eich galluogi i wneud yn siŵr fod y plant yn gwisgo dillad a sgidiau addas. Os bydd hi'n oer neu'n wyntog, gwnewch yn siŵr fod gan y plant ddigon o haenau a chotiau. Felly hefyd os yw'r tywydd yn boeth - dylai fod gan y grŵp hetiau haul a digon o ddiodydd. Tra byddant yn y coed gall y plant geisio cysgod o dan y coed. Dylech gadw llygad ar sut mae'r grŵp yn ymdopi â'r amodau mewn unrhyw sefyllfa, a byddwch yn barod i fod yn hyblyg os gwnaiff yr amodau newid. Os credir bod y tywydd yn rhy wael i fynd â'r plant o amgylch y coed yn ddiogel, gellir darparu gweithgareddau dan do amgen yng nghanolfan gymuned neu ysgol Pen y Bryn, neu gellir gohirio neu ganslo'r digwyddiad.

Y Tir

Llwybrau drwy'r coed yw'r tir dan draed. Maen nhw'n gallu bod yn lleidiog a llithrig ac mae'r llwybr yn serth mewn manau. Cyn yr ymweliad dylech rybuddio'r grŵp i wisgo sgidiau addas, ac i ddisgwyl manau anwastad a chreigiog dan draed. Dylech ofyn i'r plant gerdded, nid rhedeg, a dylech eu goruchwyllo.

Peryglon eraill

Gwarchodfa natur yw Pwllcrochan sy'n golygu bod yno blanhigion ac anifeiliaid gwyllt. Mae'n syniad da cario cit cymorth cyntaf rhag ofn i'r plant gael eu pigo gan ddanadl poethion neu'u brathu gan bryfed. Gan fod y safle'n agored i'r cyhoedd, mae'n debygol y bydd yno gŵn. Dylai cŵn gael eu cadw dan reolaeth bob amser; fodd bynnag, dylai'r grŵp gael ei annog i beidio â mynd at unrhyw gŵn a welant. Er bod sbwriel yn cael ei hel oddi ar y safle'n rheolaidd, mae'n dra phosib y gwelwch chi sbwriel yn rhywle ar hyd y llwybr. Dylech ofyn i'r plant beidio cyffwrdd unrhyw eitem sydd wedi'i gadael neu unrhyw eitem anarferol. Rhaid croesi ffordd er mwyn mynd i'r safle; mae angen goruchwyllo'r plant yn fwy gofalus yma.



Ysbytai Agosaf

Mae gan **Ysbyty Cyffredinol Llandudno** (15 munud) uned mân anafiadau: Ffordd Ysbyty, Llandudno, Conwy, LL30 1LB Ffôn: 01492 860066.

Tua'r gorllewin ar yr A55, y ffordd ymadael am Landudno, trowch i'ch chwith wrth Westy'r Links, ac i'r chwith i fyny Ffordd Ysbyty'.

Mae gan **Ysbyty Glan Clwyd** (15 munud) adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 5UJ Tel: 01745 583910

Tua'r dwyrain ar yr A55 i Fodelwyddan, yna dilynwch yr arwyddion.

Os bydd angen i chi ffonio am ambiwlans, efallai y byddwch am gwrdd â nhw wrth fynedfa'r coetir a'u harwain i mewn ar droed.

Y cyfeirnod grid ar gyfer mynedfa'r coetir-safle cychwyn y Llwybr Darganfod SH 284271:378655

Y cyfeirnod grid ar gyfer mynedfa'r coetir- ar dop King's Drive SH 284323:378420

